

# DOLEN Y TAB 63

9–10 Gorffennaf 2021

## Oedfa Rithiol Sul 11 Gorffennaf

**9.45** Oedfa'r Cyfundeb. Ymuno'n rhithiol â'r gynulleidfa 'fyw' yng nghapel y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr.

\* **Gweler yr hysbyseb ar waelod y golofn gyferbyn am fanylion y dolennau amrywiol fydd ar gael i wyllo'r oedfa.\***

## Oedfaon y Suliau Nesaf

### Gorffennaf

**18** Myfyrdod gan y Parchg. Gethin Rhys

**25** Yng ngofal Geraint Rees a'i gyfeillion.

## Hefyd ddydd Sul 11 Gorffennaf

### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Eifion Perkins, Pontarddulais.

### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## CROESO ADREF

Mae'n siŵr y bydd pawb yn falch o glywed bod Beti Treharne bellach yn ôl ar yr aelwyd yn Efail Isaf wedi iddi dreulio pedair wythnos yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth. Da deall ei bod yn gwella bob dydd ac yn cael digon o 'dendans' gan y teulu.

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 13 Gorffennaf. Os oes unrhyw fater yr hoffech ei godi, yna cysylltwch ag Ysgrifennydd y Bwrdd erbyn nos Lun 12 Gorffennaf fan bellaf. ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205 / 07710 237327).

## DIOLCH YN FAWR

Does dim diwedd ar eich cefnogaeth a'ch haelioni, ac mae llawer o elusennau a phobl anghenus yn dal i elwa o'n cyfraniadau ni fel capel.

Ddiwedd mis Mehefin, anfonwyd sic gwerth £1,145 at Cymorth Cristnogol o'n casgliad at apêl Wythnos Cymorth Cristnogol eleni i gefnogi'r gwledydd tlawd ac anghenus sydd wedi eu llethu gan Covid-19.

Ar ben hyn, anfonwyd sic bellach gwerth £1,835 at Fanc Bwyd Taf Élai yr wythnos ddiwethaf, ac mae Lol Delbridge yn pwysleisio pa mor werthfawrogol ydy pawb o'n cefnogaeth. Mae'r Banc Bwyd yn diwallu angen mawr yn y gymuned, a bydd y casgliad yn parhau, fel y casgliad amlenni brown.

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich haelioni dihybydd.

Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

## Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

### OEDFA'R CYFUNDEB

9.45 Bore Sul 11 Gorffennaf

Oedfa'r Cyfundeb o Gapel y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr yng ngofal y Parchg. Dylan Rhys Parry. Gellir ymuno'n rhithiol dros Zoom:

<https://us02web.zoom.us/j/84389637732?pwd=VjZhZVlwa1g4OTNQenlRczd2OERjdz09>

**Bydd y 'drysau' ar agor o 9.30 ymlaen!**

Fel arall bydd modd gwyllo recordiad o'r oedfa yn hwyrach yn y dydd ar dudalen *Facebook* neu sianel *YouTube* Capel Annibynwyr y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr.

Dolen i'r dudalen *Facebook*:

<https://www.facebook.com/TabernaclPenybontarOgwr>

Dolen i'r dudalen *YouTube*:

<https://www.youtube.com/channel/UChdJvxJGrx7HDxq2WR5JdTww/featured>

# Dwy siwrne wahanol iawn – ond yr un yw'r argyfwng

## Ble mae Daniel?

Yng nghyffiniau  
Llyn Erfynwy  
ym Mhowys  
ddechrau'r  
wythnos hon,  
roedd 'Daniel'  
yn paratoi i  
hedfan dros  
5,000 o  
filltiroedd i'w




gartref yng nghanolbarth Affrica. Fel arfer nid yw taith fel hon yn cael sylw'r cyfryngau gan fod hynafiaid 'Daniel' wedi ei thramwyo'n flynyddol am fileniwm a mwy. Ond yr hyn sy'n wahanol eleni yw bod BTO Cymru wedi tagio Daniel fel bod modd ei ddilyn bob cam i'r Congo.

Nid dyma'r tagio cyntaf o'i fath gan fod swm helaeth o ddata sy'n olrhain llwybrau'r cogau rhwng Prydain ac Affrica eisoes ar gael. Ymhlith y ffeithiau mwyaf diddorol yw'r wybodaeth bod y cogau'n dilyn un o ddau brif lwybr, y naill dros yr Eidal a Libya a'r llall dros Sbaen, cyn croesi Môr y Canoldir. Hefyd, tra bod yr amserlen i gyrraedd Cymru mor ddibynadwy â threnau'r Swistir, taith lawer iawn mwy hamddenol yw'r un wrth ddychwelyd i Affrica gan nad oes unrhyw bwysau i lynu wrth amserlen dynn. Un gofid i'r cogau sy'n dilyn y llwybr drwy Sbaen a'r Sahara yw bod mwy ohonynt yn methu cyrraedd pen eu taith gan fod newidiadau i'r hinsawdd yn galw am oroesi mwy o sychder nag erioed o'r blaen.

## Ffoi'r Fflamau

Taith lawer byrrach a phur wahanol brofodd trigolion pentref Lytton yn nhalaith British Columbia lai na phythefnos yn ôl. Dros gyfnod o dri diwrnod ar ddiwedd Mehefin, torrwyd pob record ar gofnod am ran ogleddol y byd wrth i'r tymheredd godi i 49.6 gradd. Arweiniodd y gwres tanbaidd at danau nerthol yn y coedwigoedd oedd yn amgylchynu'r ardal, ac wrth i'r tanau ledaenu'n arswydus o gyflym i gyfeiriad Lytton doedd dim dewis gan y pentrefwyr ond ffoi am eu bywydau gan adael eu holl eiddo ar drugaredd y fflamau. Heddiw, 9 Gorffennaf, am y tro cyntaf ers y digwyddiad erchyll hwnnw, cawsant eu hebrwng mewn bws er mwyn gweld â'u llygaid eu hunain yr holl ddfrod a wnaed i'w cartrefi ac i'r gymdogaeth gyfan. Mae'n amhosib i ni amgyffred yr effaith a gafodd y golygfeydd erchyll ar y daith hon arnynt.



## Rhybudd Amserol

Mae gan drychineb pentrefwyr Lytton rybudd amserol i holl drigolion y blaned. Amcangyfrifir fod y gromen wres a welwyd yng ngogledd-orllewin yr UDA a Chanada fis diwethaf wedi achosi marwolaeth cannoedd o bobl a biliynau o greaduriaid y môr. Mae astudiaeth gychwynnol gwyddonwyr y *World Weather Attribution Group* i'r ffenomen hon yn rhybuddio bod effeithiau'r digwyddiad yn hynod o arwyddocaol gan eu bod ymhell y tu hwnt i'r senario waethaf a ragwelwyd gan eu modelau cyfrifiadurol hyd yn hyn. Yr unig gysur sydd gennym yw bod hwn yn rybudd clir iawn na all arweinwyr gwleidyddol barhau i anwybyddu difrifoldeb yr argyfwng hinsawdd rhagor, a bod gan Gynhadledd Cop26 ym mis Tachwedd gyfrifoldeb llawer mwy tyngedfennol i'w ddatrys ar frys.

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.

Ysgol Haf Rithiol Gweinidogion yr Annibynwyr

**DARLITH GOFFA  
PENNAR DAVIES AC  
R TUDUR JONES**

'Y LLWYBR ANNIBYNNOL'

NOS IAU  
GORFFENNAF 15  
7:30PM  
Croeso cynnes i bawb

I DDERBYN LINC:  
undeb@annibynwyr.cymru



Huw Edwards, BBC